**Adroddiad i'r:** **Cabinet**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **30 Mehefin 2015**

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill/ Richard Weigh**

**Awdur yr Adroddiad:** **Steve Gadd, Prif Gyfrifydd**

**Teitl:** **Adroddiad Cyllid**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am gyllideb refeniw ac arbedion y Cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2015/16. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno o'r Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol bresennol y cyngor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2015/16 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer y gyllideb.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae'r adroddiad yn crynhoi cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2015/16 sydd i'w weld yn **Atodiad 1**. Cyllideb refeniw net y Cyngor yw £185 miliwn (£188 miliwn yn 14/15). Rhagwelwyd y bydd tanwariant o £0.534 mil. Mae adroddiad pellach ynghylch y rhesymau dros amrywiadau a'r risgiau a'r rhagdybiaethau sy'n sail iddynt wedi'u hamlinellu isod.

Cytunwyd ar arbedion o £7.3m yn rhan o'r gyllideb ac mae crynodeb o'r arbedion yn **Atodiad 2**. Mae 72% o'r arbedion wedi eu cyflawni eisoes. Bydd cynnydd ar y 28% sy'n weddill yn cael ei fonitro'n agos dros y misoedd nesaf, fodd bynnag mae hyder yn uchel iawn y bydd mwyafrif yr arbedion hyn yn cael eu cyflawni hefyd.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn sylfaen i weithgarwch ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae adroddiad gwasanaethau sylweddol ar gael yn y paragraffau isod.

**Gwasanaethau Plant** – Ar hyn o bryd, disgwylir y bydd y gwasanaeth yn tanwario o £80,000 oherwydd gostyngiad rhagamcanol mewn costau cyfreithiol. Fodd bynnag, gall rhagamcaniadau yn y gwasanaeth hwn newid wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen oherwydd y newidiadau posibl yn ystod y flwyddyn mewn lleoliadau cost uchel.

**Risgiau Gwasanaeth/Rhagdybiaethau Eraill** - Er bod yna ragamcan y bydd gwasanaethau eraill yn adennill costau ar hyn o bryd, mae yna nifer o risgiau a rhagdybiaethau a fydd yn cael eu monitro'n agos dros y misoedd nesaf ac yn cael eu hadrodd i'r Aelodau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Yr arwyddion cynnar yw bod lefelau incwm Hamdden yn parhau i fod yn gryf a gallai arwain at sefyllfa cyllideb cadarnhaol wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen.
- Bydd y risgiau ynghylch Cludiant Ysgol, parcio a gwaith a wnaed ar ran yr Asiantaeth Cefnffyrdd yn parhau yn 2015/16. Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y camau rheoli sydd eisoes wedi'u nodi yn ystod 2014/15 yn caniatáu i'r Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol adennill costau ar y cyfan eleni.
- Bydd y cynnig i greu a chynyddu cronfa wrth gefn ar gyfer tywydd difrifol â'r arian o danwariant Gwasanaeth Priffyrdd ac Amgylcheddol yn cael ei gynnwys yn Adroddiad Alldro Ariannol (sydd hefyd yn amsugno cronfa wrth gefn presennol cynnal a chadw'r gaeaf a darpariaeth blaenorol wedi'i neilltuo ar gyfer llifogydd), yn helpu i liniaru'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â chost o ymateb i unrhyw ddigwyddiadau tywydd garw yn y dyfodol. Rhagwelir y bydd yr arian at raid hwn yn galluogi meysydd gwasanaeth anweddol megis Cynnal a Chadw yn y Gaeaf i gael eu cyflwyno o fewn y cyllidebau presennol.

**Ysgolion** - Balansau a ddygwyd ymlaen o £3.538m o 2014/15. Ar hyn o bryd maent yn gweithio ar gynlluniau ariannol manwl ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd.

**Corfforaethol** – Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd yna danwariant ar gyllidebau Corfforaethol o £0.454m yn sgil adolygiad parhaus o gyllidebau arian at raid a ddelir yn ganolog. Y dybiaeth ar hyn o bryd yw y bydd tanwariant corfforaethol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol.

Mae cronfeydd arian parod y **Cynllun Corfforaethol** ar ddechrau 2015/16 yn £17.413 miliwn. Gan ganiatáu ar gyfer ariannu a gwariant sydd wedi eu

rhagamcan yn ystod y flwyddyn, amcangyfrifir y bydd balans y Cynllun Corfforaethol ar ddiwedd y flwyddyn yn £6.538m.

Yr adroddiad diweddaraf yw bod **Cyfrif Refeniw Tai** yn unol â'r Gyllideb y cytunwyd arno, a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Chwefror 2015. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r cynnydd gwarged yn 14/15, mae'r balans a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn wedi cynyddu i £1.9m (o £1.5m). Mae adolygiad o gyllideb weithredol cyfrif Refeniw Tai yn mynd rhagddo i ystyried nifer o newidiadau deddfwriaethol ac ailstrwythuro gweithredol.
Mae cyllideb cyfalaf o £7.8m yn cael ei ddyrannu ar draws Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw - gwaith atgyweirio wedi'i gynllunio (£7.2m), Gwelliannau Amgylcheddol (£0.5m) a phrosiect TG (£150,000).

**Rheoli'r Trysorlys** - Ar ddiwedd mis Mai, roedd cyfanswm benthyciadau'r cyngor yn £184.813m ar gyfradd gyfartalog o 5.13%. Roedd balansau buddsoddi yn £25.194miliwn ar gyfradd gyfartalog o 0.50%.

Mae crynodeb o **Gynllun Cyfalaf** y Cyngor yn **Atodiad 3**. Mae'r cynllun cyfalaf cyffredinol a gymeradwywyd yn £40.4miliwn ac mae'r gwariant hyd yma yn £2.89m. Hefyd yn Atodiad 2 mae'r gwariant arfaethedig o £29.2m ar y **Cynllun Corfforaethol**.

Yn **Atodiad 4** mae diweddariad ynglŷn â'r prif brosiectau sydd wedi eu cynnwys yn y **Cynllun Cyfalaf.**

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Cafodd asesiad manwl o effaith ei lunio yn rhan o'r broses gosod y gyllideb, a chafodd ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2014.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, mae'r broses gyllideb wedi cael ei ystyried gan yr UDG, UDA, Briffio'r Cabinet, Briffio'r Cyngor. Cafodd cynigion penodol eu hadolygu gan bwyllgorau archwilio. Cynhaliwyd deg gweithdy cyllideb gydag aelodau etholedig er mwyn edrych ar gyllidebau gwasanaethau ac ystyried cynigion y gyllideb.

Cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn ystyried effaith cynigion y gyllideb, ac mae trafodaethau yn mynd rhagddynt rhwng rhai o wasanaethau'r cyngor sir a rhai o gynghorau tref. Mae'r cyngor wedi ymgynghori â'i bartneriaid trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd a chafwyd trafodaethau penodol gyda'r Heddlu.

Fe ddiweddarwyd pob aelod staff ynghylch y broses gosod y gyllideb, ac fe ymgynghorwyd yn llawn â staff a fydd yn cael eu heffeithio, neu fe fydd ymgynghori'n digwydd â nhw, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol y Cyngor. Fe ymgynghorwyd ag Undebau Llafur trwy'r Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'n bwysig bod gwasanaethau'n parhau i reoli cyllidebau'n ddoeth a bod unrhyw arian dros ben o fewn y flwyddyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol tymor canolig, yn arbennig o ystyried graddfa'r gostyngiadau y mae'n ofynnol eu gwneud yn y gyllideb yn ystod y ddwy neu dair blynedd nesaf.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi ei wynebu a byddai methu a chyflawni'r strategaeth y cytunwyd arni gogyfer â'r gyllideb yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac yn y dyfodol. Bydd monitro a rheoli'r gyllideb yn effeithiol yn helpu i sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151, Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.